



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Gwenyn Iach 2030

Gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd a  
hwsmonaeth gwenyn mêl yng Nghymru a Lloegr

Tachwedd 2020



*Llun clawr: Gwenyn mêl yn cyrraedd y cwch gyda phail.*  
*Diolch i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid (APHA), Hawlfraint y Goron.*



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

PB: 16634

Cewch wybodaeth am y cyhoeddiad hwn oddi wrth:

### **Cymru**

Tir, Natur a Choedwigaeh  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2290

E-bost: [GwenynMellach@llyw.cymru](mailto:GwenynMellach@llyw.cymru)

[HoneyBeeHealth@gov.wales](mailto:HoneyBeeHealth@gov.wales)

### **Lloegr**

Iechyd a Lles Anifeiliaid a Phlanhigion  
Defra  
Room 11G35, York Biotech Campus, Sand Hutton  
York  
YO41 1LZ

Ffôn: 020 80261586

E-bost: [BeeHealth.Info@defra.gov.uk](mailto:BeeHealth.Info@defra.gov.uk)

# Cynnwys

<b>Rhagair.....</b>	<b>4</b>
<b>Datganiadau gan y Fforwm Cyngtori ar Iechyd Gwenyn.....</b>	<b>5</b>
Cymdeithas Gwenynwyr Prydain .....	5
Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn .....	5
Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenynna .....	5
Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr .....	6
Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.....	6
Cymdeithas Gwenynwyr Cymru.....	6
<b>Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>7</b>
<b>Pennod 1 - Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
<b>Pennod 2 – Canlyniadau .....</b>	<b>11</b>
1. Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw’r perygl o blâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy.....	11
2. Sgiliau a gallu/capaciti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn .....	11
3. Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn 12	
4. Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar iechyd gwenyn mêl ac anghenion pryfed peillio eraill. ....	12
<b>Pennod 3 – Ffyrdd o weithio.....</b>	<b>13</b>
Bioddiogelwch.....	13
Sgiliau a chynhyrchiant.....	13
Gwyddoniaeth a thystiolaeth .....	13
Cyfnewid Gwybodaeth .....	14
<b>Pennod 4 – Rhoi’r Cynllun ar waith.....</b>	<b>14</b>
Sut i roi Cynllun Gwenyn Iach 2030 ar waith.....	14

## Rhagair

Ar ran Llywodraeth Cymru a Defra, mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Gwenyn Iach 2030.

Mae iechyd gwenyn mêl yn hanfodol bwysig i'w rôl fel peillwyr ac er lles sector gwenyna masnachol llewyrchus. Hefyd, mae llawer o bobl yn mwynhau cadw gwenyn fel hobi ac fel ffordd o fod yn rhan o fyd natur.

Nod y Cynllun Gwenyn Iach a gyhoeddwyd yn 2009 oedd sicrhau poblogaeth iach a chynaliadwy o wenyn mêl ar gyfer cynhyrchu mêl a pheillio yng Nghymru a Lloegr trwy gryfhau'r bartneriaeth weithio rhwng llywodraeth a rhanddeiliaid eraill. O dan y cynllun, mae perthynas weithio effeithiol wedi'i datblygu, ceir llawer mwy o addysg a hyfforddiant i wenynwyr a ffermwyr gwenyn, aed i'r afael â heriau gan gynnwys plâu egsotig newydd ac mae miloedd yn rhagor o wenynwyr wedi dewis cofrestru ar wefan BeeBase yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU).

Yn sgil cyhoeddi ein hadolygiad eleni o'r cynllun gwreiddiol, rydyn ni nawr yn lansio Cynllun Gwenyn Iach 2030 i fynd i'r afael â'r heriau sy'n parhau i iechyd gwenyn mêl. Gan ddiolch i'n rhanddeiliaid ar y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn, rydym wedi datblygu'r cynllun hwn i roi fframwaith i'n hamcanion ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Rydym yn datlygu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda, cydnabod ble mae angen rhagor o waith a mynd i'r afael ag agweddau newydd.

Rydym wedi ymrwmo o hyd i ddiogelu a gwella iechyd gwenyn mêl Cymru a Lloegr a disgwyliwn ymlaen at barhau i weithio gyda phawb sydd â diddordeb yn iechyd ein gwenyn i fynd â'r meini hyn i'r wal.



*Prof. Nicola Spence, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Planhigion a Gwenyn, Defra*



*Ceri Witchard, Dirprwy Gyfarwyddwr Tir, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru*

# **Datganiadau gan y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn**

## **Cymdeithas Gwenynwyr Prydain**

Cymdeithas Gwenynwyr Prydain (BBKA) yw cymdeithas fwyaf gwenynwyr y DU gyda 26,335 o aelodau. Ein nodau yw addysgu'n haelodau i hyrwyddo lles gwenyn a chodi safonau gofalu am wenyn, ac mae'r cynllun hwn yn ymgorffori'r egwyddorion hynny. Mae'n bleser gan BBKA ei gefnogi a pharhau i gydweithio at gyflawni Cynllun Gwenyn Iach 2030.

## **Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn**

Mae gwenyn mêl a ffermwyr gwenyn yn weithwyr hanfodol yng nghadwyn fwyd y DU ac mae Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn (BFA), y corff masnach sy'n eu cynrychioli, yn disgwyl ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a Defra trwy'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn ar y Cynllun Gwenyn Iach deng mlynedd hwn. Mae cynllun o'r fath - gyda chynllun DASH - yn hanfodol er lles iechyd gwenyn ac ar gyfer hyfforddi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant yn ogystal â datblygiad proffesiynol y ffermwyr presennol.

## **Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyn**

Mae'r Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyn (NDP) yn croesawu cefnogaeth y llywodraeth i wella'r wybodaeth a'r addysg a ddarperir i wenywyr fel rhan o Gynllun Gwenyn Iach 2030. Mae'r NDP yn gweld y cynllun fel cyfle i wella hwsmonaeth gwenyn ymhellach a gwella gallu gwenynwyr i adnabod clefydau a phlâu a chymryd camau i'w rheoli.

Gyda mwyafrif y nythfeydd yn y DU o dan ofal gwenynwyr amatur, mae'n hanfodol annog gwenynwyr i gynnal mesurau bioddiogelwch effeithiol, rhoi'r wybodaeth iddyn nhw allu gwneud hynny a dangos sut i gael breninesau a gwenyn o ffynonellau diogel a sut i ddatblygu sgiliau trin a rheoli ardderchog er mwyn diogelu'r manteision y mae gwenynwyr yn eu darparu trwy beillio.

Mae'r NDB yn falch fod y cynllun newydd yn cydnabod bygythiad cacynen (picwnen) Asia a chwilen fach y cwch i wenywyr yn y DU, ynghyd â'r colledion rydym yn parhau i'w dioddef oherwydd Varroa.

## **Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr**

Mae Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) wedi bod ynghlwm wrth y Cynllun Gwenyn Iach ers ei lansio yn 2009. Mae ffermwyr a thyfwyr yn cydnabod cyfraniad anferth gwenyn mêl at beillio, a phwysigrwydd gwenyn iach ar gyfer cnydau a chynhyrchu mêl. Rydyn ni'n gysylltiedig â'r ymchwil i ddeall yr heriau sy'n wynebu gwenyn yn well; ac i hyrwyddo gofal wrth ddefnyddio plaladdwyr a darparu safleoedd gwell ar gyfer hela bwyd a chychod. Mae'r Cynllun Gwenyn Iach yn ganolog i ymdrechion i wella iechyd gwenyn y DU ac rydyn ni'n disgwyl ymlaen at fod yn rhan ohono am y 10 mlynedd nesaf.

## **Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol**

Bydd y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn parhau i gefnogi a chydweithio ag asiantaethau'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i wella iechyd gwenyn. Ein nod cyffredin yw rhannu gwybodaeth â gwenynwyr a gweithio gyda'n gilydd er mwyn ymateb i'r peryglon i iechyd gwenyn a sicrhau bod moddion gwenyn yn parhau'n ddiogel, o ansawdd uchel ac yn effeithiol.

## **Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**

Er mwyn delio â'r heriau rydym yn eu hwynebu, rhaid i'n holl rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd ac o safbwynt gwenynwyr, gall Cynllun Gwenyn Iach 2030 fod yn sail ar gyfer cydweithio o'r fath. Mae'n ymdrin â'r amcanion bras a nodwyd yn yr adroddiad ar y cynllun deng mlynedd blaenorol ond yn y fath fodd fel y gallwn addasu'r ffyrdd o'u cyflawni wrth i amgylchiadau newid. Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru'n disgwyl ymlaen at weithio gyda'i haelodau a'u hannog i weithio gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid eraill a'r Fforwm Cyngori ar Iechyd Gwenyn i ddatblygu dulliau cyflawni er lles gwenyn a gwenyna.

## Crynodeb Gweithredol

Mae gwenyn mêl yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynhyrchu bwyd lleol ac yn gwneud cyfraniad pwysig, trwy beillio, at gynhyrchu cnydau ac at les amgylchedd ehangach, Yn y DU, amcangyfrifir bod pryfed trwy beillio yn ychwanegu £400m - £700m at werth cnydau ac ansawdd hadau a ffrwythau. Hefyd, mae mêl yn fwyd gwerthfawr, er bod llai nag 20% o'r cyfanswm sy'n cael ei werthu yn y DU ar hyn o bryd yn cael ei gynhyrchu yn y DU.

Mae gwenyn mêl yn agored i amrywiaeth o fygythiadau, gan gynnwys plâu a chlefydau, ac mae'r tebygolrwydd y bydd gwenyn yn eu dal a chanlyniadau eu dal wedi tyfu yn y blynyddoedd diwethaf. Amcan y cynllun hwn yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwenynwyr a ffermwyr gwenyn a chynnal iechyd gwenyn a gwenyna yng Nghymru a Lloegr dros y degawd nesaf. Mae'n adeiladu ar y Cynllun Gwenyn Iach diwethaf a ganiataodd i lywodraeth, gwenynwyr a ffermwyr gwenyn ddatblygu ffyrdd o gydweithio â'i gilydd, gwella'r wybodaeth sydd ar gael at ddefnydd yr NBU am wenynwyr a datblygu rhaglenni addysg a hyfforddi presennol y cymdeithasau. Mae'r cynllun yn disgrifio'r pedwar prif ganlyniad rydym am eu gwireddu trwy weithio gyda gwenynwyr a ffermwyr unigol, eu cymdeithasau a rhanddeiliaid eraill.

Y canlyniadau hynny yw:

- 1) Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw'r perygl o blâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy;
- 2) Sgiliau a gallu/capasiti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn;
- 3) Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn; a
- 4) Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar iechyd gwenyn mêl ac anghenion pryfed peillio eraill.

Mae'r cynllun yn nodi hefyd sut y gall llywodraeth, gwenynwyr, ffermwyr gwenyn, eu cymdeithasau a rhanddeiliaid eraill weithio gyda'i gilydd i wireddu'r amcanion hyn. Mae'n hanfodol eu bod yn parhau i gydweithio'n dda â phartion sydd â diddordeb er mwyn gallu nodi a threchu bygythiadau hen a newydd i iechyd gwenyn.

Cyhoeddi'r cynllun hwn yw man cychwyn y gwaith ar raglen i'w roi ar waith – penderfynir ar y gweithgareddau y rhoddir blaenoriaeth iddynt a'r amserlen ar gyfer eu cynnal dros y chwe mis nesaf gan ymgynghori â'r holl bartneriaid.

## Pennod 1 - Cyflwyniad

Cafodd y Cynllun Gwenyn Iach cyntaf ei gyhoeddi yn 2009 yn sgil adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol ar iechyd da byw a gwenyn mêl a dynnodd sylw at y nifer fawr o nythfeydd oedd yn cael eu colli oherwydd *Varroa* (Ffigur 1). Roedd yr adroddiad yn argymhell meithrin perthynas â rhanddeiliaid, datblygu cofrestr lawnach o wenynwyr ac y dylai'r NBU ddatblygu ymagwedd gytûn â gwenynwyr at hyfforddiant. Roedd y cynllun 10 mlynedd yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth i wella iechyd gwenyn a chynhwysai fesurau i wella gwybodaeth a galluedd gwenynwyr trwy hyfforddiant ac addysg er mwyn iddynt allu ymateb i fygythiadau i iechyd gwenyn. Cynhaliodd Defra a'r NBU, mewn cydweithrediad â'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn, adolygiad o'r cynllun yn 2020. Prif gasgliadau hwnnw oedd bod rhanddeiliaid a llywodraeth wedi elwa ar y cydweithio hwn. Roedd y rhaglen hyfforddi ac addysgu a sefydlwyd o dan y cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod gwenynwyr a ffermwyr gwenyn wedi'i groesawu. Roedd y ffordd yr oedd y cynllun yn cael ei reoli wedi newid wrth i amgylchiadau newid.

Mae llawer o beryglon newydd yn wynebu gwenynwyr a'u gwenyn. Daeth cacynen (picwnen) Asia (*Vespa velutina*; Ffigur 2) i Ffrainc yn 2004 ac ers hynny, mae hi wedi lledaenu ledled Ffrainc ac i nifer o wledydd eraill gerllaw, a cheir bellach boblogaethau wedi'u sefydlu yn yr Eidal, Sbaen a Phortiwgal. Mae'r niferoedd yng Ngogledd Ffrainc ac Ynysoedd y Sianel ar gynydd. Er ein bod wedi llwyddo i ddifa'r achosion sydd wedi ymddangos yn Lloegr ers 2016, rydym yn rhagweld y bydd mwy yn cyrraedd yn y blynyddoedd i ddod. Cydweithio yw sylfaen ein gwaith wrth reoli cacynen Asia ac mae cael gwenynwyr ac aelodau'r cyhoeddi i sylwi arni'n fuan wedi bod yn allweddol i'n hymateb.

Pla goresgynnol estron arall yw chwilen fach y cwch (*Aethina tumida*; Ffigur 3) sydd wedi ymsefydlu yn un rhan o'r Eidal ers lansio'r cynllun cyntaf. Ym mis Medi 2014, gwnaeth awdurdodau'r Eidal nodi'u hachos cyntaf ac er ymdrech galed i'w difa, mae'r chwilog yn dal i gael eu gweld. Mae mesurau diogelu wedi'u hestyn tan 2021.

Ffig. 1



Ffig. 2



Ffig. 3



*Diolch i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) am y lluniau: ): Ffig. 1 darlun o widdonau Varroa (tua 2mm o led) ar larfa gwenyn mêl. Ffig. 2 yn ddarlun o gacynen Asia llawndwf (Vespa velutina) (oddeutu 25mm o hyd). Ffig. 3 yn ddarlun o chwilen fach y cwch llawndwf (5-7mm o hyd). Ffig'au.1&3 Hawlfraint y Goron; Ffig.2 ©Jean Haxaire*

Mae mwy a mwy o wenyn wedi bod yn cael eu mewnfario i'r DU o'r UE bob blwyddyn ers lansio'r cynllun cyntaf. Mae'n anodd meddwl am un rheswm penodol



am y twf hwn ond mae'n debyg bod cynnydd wedi bod yn y galw am freninesau newydd yn gynnwys yn y tymor. Er bod angen tystysgrif iechyd, sy'n gwarantu iechyd y gwenyn, bob tro y symudir gwenyn ar draws ffiniau, mae'n anorfod bod elfen o risg yn gysylltiedig â symud gwenyn mêl o un ardal i'r llall.

Mae gwenyn mêl yn wynebu'r un math o bwysau â phryfed llesol eraill. Mae newidiadau yn y ffordd y mae tir yn cael ei drin, trefoli a'r newid yn yr hinsawdd i gyd yn effeithio ar wenyn mêl. Gwnaeth Datganiadau Tystiolaeth a'r Crynodeb o'r Dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Defra yn 2019 i lywio Strategaeth Genedlaethol Lloegr ar Bryfed Peillio nodi fod plâu a chlefydau yn gwasgu ar wenyn mêl a phryfed peillio eraill, felly mae gwella bioddiogelwch mewn gwenynfeydd yn para'n elfen bwysig o'r cynllun newydd.<sup>1</sup> Ceir mwy o ddiddordeb hefyd yn y cysylltiadau posibl rhwng clefydau pryfed peillio dof a rhai gwyllt. Bydd Cynllun Gwenyn Iach 2030 yn cynnal cysylltiadau â meysydd polisi eraill fydd yn cael effaith ehangach ar iechyd gwenyn mêl – meysydd polisi fel Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio sy'n anelu at ddarparu cynefinoedd blodeuog amrywiol a chysylltiedig i gynnal pryfed peillio, a Strategaeth Genedlaethol Lloegr ar gyfer Pryfed Peillio sy'n gosod allan gynllun 10 mlynedd i helpu pryfed peillio i oroesi a ffynnu.<sup>2</sup> Mae gweithgareddau o dan Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Pryfed Peillio yn Lloegr a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru yn cynnwys defnyddio'r Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol (Lloegr) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Cymru) i annog ffermwyr i weithredu er lles pryfed peillio a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am anghenion pryfed peillio.<sup>3</sup>

Mae meysydd polisi perthnasol eraill yn cynnwys mesurau rheoli diogelwch bwyd (rheoliadau ar halogion mewn mêl), rheolau ar feddyginiaethau milfeddygol a defnyddio plaladdwyr. Er bod y meysydd hyn y tu allan i gwmpas y cynllun, bydd swyddogion y llywodraeth yn para i drafod â'r adrannau a'r asiantaethau arwain.

Un o'r prif brosiectau o dan y cynllun blaenorol oedd cynyddu nifer y gwenynwyr sy'n cael eu cofrestru ar BeeBase a gwella ansawdd yr wybodaeth ar y gronfa ddata. Mae holl bartneriaid y cynllun yn frwd dros fanteision bod yn aelod o BeeBase a chafwyd ymgyrch i annog gwenynwyr oedd heb gofrestru i wneud hynny. O ganlyniad, bu cynnydd dramatig yn y niferoedd sydd bellach wedi cofrestru. Yn 2010, roedd rhyw 16,000 wedi'u cofrestru ac erbyn Medi 2020, roedd rhagor na 42,000 o wenynwyr wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae hynny'n help mawr i'r NBU wrth gynllunio'n hymateb i achosion o glefyd. Mae'n golygu hefyd fodd bynnag bod yna ragor o wenynwyr ar gyfer pob arolygydd, felly rhaid blaenoriaethu archwiliadau. Mae'r cynnydd yn nifer y gwenynwyr cofrestredig yn brawf hefyd fod cadw gwenyn wedi tyfu yn ei boblogrwydd dros gyfnod y cynllun, gyda llif cyson o wenynwyr newydd. Mae'r Cynllun Sicrwydd Rhag Clefydau Gwenyn Mêl (DASH)

---

1 Management and drivers of change of pollinating insects and pollination services, Evidence statements and Summary of Evidence, 2019 adroddiad a gyhoeddwyd gan Defra, Prosiect ymchwil Defra BE0160.

2 [Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio](#), 2013, Cyf Llywodraeth Cymru. WG18155, [The National Pollinator Strategy: for bees and other pollinators in England](#), 2014, Cyf cyhoeddiad Llywodraeth y DU. PB14221.

3 <https://www.gov.uk/government/publications/national-pollinator-strategy-2014-to-2024-implementation-plan>

wedi bod yn gaffaeliad i ffermwyr a'r NBU: mae'n arbennig o fuddiol i'r ffermwyr hynny sydd â'r nifer fwyaf o nythfeydd.

Mae'r ffordd y mae gwenynwyr yn cael cyngor a gwybodaeth hefyd yn newid. Mae nifer cynyddol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a fforymau ar-lein sy'n ffordd newydd o roi cyngor a rhannu profiadau. Fodd bynnag, perthynas bersonol a mentora yw'r allwedd o hyd yng ngolwg llawer ar gyfer cadw diddordeb gwenynwyr newydd. Ar ddechrau'r cynllun, datblygodd is-grwpiau'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni, rhagflaenydd y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn, nifer o daflenni sydd dal i fod ar gael ar-lein. Mae technoleg gludadwy hefyd ar gynydd sy'n golygu bod gwenynwyr ac archwilwyr yn gallu derbyn gwybodaeth/cyngor wrth y cwch ei hun.

Cafwyd datblygiadau o fewn llywodraeth sydd wedi effeithio ar bolisi iechyd gwenyn. Ymadawodd y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020 ac rydym wedi diweddarau'n deddfwriaeth i sicrhau ein bod ni'n gallu parhau i ddiogelu gwenyn mêl y DU rhag plâu a chlefydau a rhoi cefnogaeth i'n gwenynwyr. Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod wedi'i hymrwymo i ddatganoli ac i sicrhau fod y pedair gwlad yn cydweithio ar iechyd gwenyn.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol Lloegr ar gyfer Pryfed Peillio, a gyhoeddwyd yn 2014, ynghyd â Chynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 sy'n diffinio uchelgais y Llywodraeth ar gyfer pryfed peillio a'r amgylchedd, yn nodi'r hyn y disgwylir i'r polisi cyffredinol ei gyflawni mewn cysylltiad ag iechyd gwenyn yn Lloegr.<sup>4</sup> Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo hefyd i greu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru ei gyhoeddi yn 2013. Y ddeddfwriaeth fwyaf perthnasol yng Nghymru yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Act.<sup>5</sup> Y Cynllun Gweithredu a'r Deddfau sy'n pennu cyfeiriad polisi Cymru ar bryfed peillio a'r amgylchedd. Gyda'i gilydd, y cynlluniau a'r polisiau hyn yw'r sylfeini ar gyfer helpu Cymru a Lloegr i wireddu'r uchelgais o gynnal cynefinoedd cyfoethog, amrywiol a chysylltiedig sy'n gallu cynnal pryfed peillio.

Bydd datblygiadau yn yr UE yn dal i effeithio ar y DU yn ystod y cyfnod pontio, ac mae'r sefyllfa gyfreithiol yn yr UE yn newid hefyd wrth i'r rheolau ar iechyd anifeiliaid a mesurau swyddogol gael eu diweddarau. Mae'r rheoliadau newydd yn atgyfnerthu'r rheolau presennol ac yn defnyddio ffordd fwy modern a chyson o weithio.

Cafwyd hefyd newidiadau i strwythur llywodraeth. Ar ddechrau'r Cynllun Gwenyn Iach, Fera oedd yn gyfrifol am bolisi iechyd gwenyn y Llywodraeth ac am gyflawni'r polisi hwnnw. Symudwyd polisi iechyd gwenyn i Defra ym mis Rhagfyr 2012. Rai blynyddoedd wedi hynny, symudwyd yr arolygaeth o Fera i APHA sy'n asiantaeth weithredol o dan Defra a gwnaed Fera yn Fera Science Ltd, menter ar y cyd gyda Capita. Fera Science Ltd yw'r labordy swyddogol sy'n ymdrin ag iechyd gwenyn mêl o hyd yng Nghymru a Lloegr.

---

4 [A Green Future: Our 25 Year Plan to Improve the Environment](#), Llywodraeth ei Mawrhydi, 2018.

5 Cewch wybodaeth am Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn [llyw.cymru](#). A Welsh Government Guide to the Act, ref. WG 25447, can be found at [futuregenerations.wales](#).

Wrth i ni ddechrau ar Gynllun Gwenyn Iach Newydd ac edrych tua'r 10 mlynedd nesaf, bydd gwenyn mêl, gwenynwyr, ffermwyr gwenyn a rhanddeiliaid yn para i wynebu llawer o newidiadau a heriau i'r amgylchedd, yr economi, rheoliadau ac eraill. Mae ein profiadau o dan y cynllun cyntaf wedi rhoi sylfaen werthfawr i ni. Bydd parhau i gydweithio yn ogystal â chadw cofnodion cyfoes o'r holl wenynwyr a ffermwyr gwenyn ar BeeBase yn elfennau holl bwysig o'r cynllun newydd. Byddwn yn disgwyl i'r rhain a mesurau eraill y byddwn yn eu datblygu wrth i'r cynllun fynd rhagddo gyfrannu at y prif amcanion o gynnal a gwella bioddiogelwch, ennyn hyder gwenynwyr a ffermwyr gwenyn wrth gadw'u gwenyn, a gwneud y defnydd gorau o wyddoniaeth gadarn i helpu gwenyn mêl, gwenynwyr a ffermwyr gwenyn i ffynnu.

## **Pennod 2 – Canlyniadau**

### **1. Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw'r perygl o plâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy**

Cynhara'n y byd ceir hyd i blâu a chlefydau a rhoi gwybod i'r awdurdodau amdanynt, mwya'n y byd yw'r siawns o'u rheoli'n effeithiol. Trwy gofrestru nifer y cychod a'u lleoliad ar BeeBase, mae gwenynwyr a ffermwyr gwenyn yn chwarae rhan bwysig iawn trwy roi gwybodaeth hanfodol y gall yr NBU ei defnyddio i atal a rheoli plâu a chlefydau yn ogystal â helpu i asesu'r risg. Mae BeeBase yn gyfrwng effeithiol hefyd ar gyfer rhoi gwybod am y risgiau a rhoi cyngor ar hwsmona da, y defnydd priodol o filfeddyginiaethau a gwybodaeth am blâu a chlefydau gwenyn. Mae bioddiogelwch effeithiol yn golygu cadw golwg ar y llwybrau risg mwyaf, rheoli mewnfurion a sicrhau bod gwenynwyr yn cael eu gwenyn o ffynonellau dibynadwy. Mae'n hanfodol hefyd, er mwyn atal plâu a chlefydau rhag lledaenu, ein bod yn gwybod o ble mae'r gwenyn mêl sy'n cael eu prynu a'u gwerthu yn y wlad hon yn dod a chofnodi hefyd symudiadau cychod, y moddion a roddir i wenyn a'r dulliau rheoli eraill a ddefnyddir.

### **2. Sgiliau a gallu/capasiti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn**

Mae addysg a hyfforddiant yn hollbwysig ar gyfer rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar wenynwyr a ffermwyr gwenyn i adnabod plâu a chlefydau a chadw at arferion hwsmona da. Bydd sgiliau eraill, fel magu breninesau a bridio gwenyn, yn helpu gwenynwyr a ffermwyr gwenyn i gynhyrchu mwy o nythfeydd sydd â theithi dymunol mewn ffordd gynaliadwy. Mae pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol, felly mae angen amrywiaeth o ddeunyddiau a dulliau dysgu er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol. Dylid addasu'r deunydd dysgu hefyd ar gyfer lefelau profiad gwahanol.

Bydd DASH, a ddatblygwyd o dan y Cynllun Gwenyn Iach gwreiddiol, yn parhau. Mae DASH yn rhoi'r hawl i ffermwyr gwenyn sydd wedi meithrin sgiliau adnabod plâu a chlefydau reoli clefydau hysbysadwy statudol eu hunain heb orfod gofyn i'r arolygydd gwenyn am help, er bod rhaid hysbysu'r llywodraeth o hyd.

Bydd addysg a hyfforddiant yn flaenoriaeth bwysig yng Nghynllun Gwenyn Iach 2030 hefyd a defnyddir amrywiaeth o fformatau i'w darparu gan gynnwys cyrsiau (ar-lein ac yn y dosbarth), hyfforddiant wrth y cwch a mentora. Daw manteision amlwg o gynnal safonau hwsmona uchel ac o gael cymorth a chyngor ymarferol gan wenywyr eraill trwy sesiynau wrth ochr cwch a mentora. Mae rhannu sgiliau a phrofiadau'n bwysig i feithrin gallu, felly rydym am ddarparu mwy o gyfleoedd i wenywyr a ffermwyr gwenyn wneud hyn.

I'r rheini sy'n ennill bywoliaeth trwy gadw gwenyn, dylid sefydlu proses ar gyfer sicrhau'u datblygiad proffesiynol parhaus, gyda golwg iddo ddod yn arfer safonol. Mae angen annog a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o wenywyr a ffermwyr gwenyn hefyd trwy ddarparu cyrsiau hygyrch neu gynlluniau prentisiaeth mwy ffurfiol.

*Ffig.4*



*Ffig.5*



*Diolch i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Hawlfraint y Goron. Ffig.4 darlun o wenywyr mewn diwrnod hyfforddi mewn gwenynfa. Ffig.5 yn ddarlun o frenhines gwenyn mêl wedi'i marcio.*

### **3. Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn**

Dylai unrhyw beth a wneir i gynnal iechyd gwenyn fod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth gadarn. Mae technoleg ac ymchwil wyddonol yn datblygu'n gyflym a chyhoeddir ffrwyth gwaith arloesi ac ymchwil yn aml. Bydd y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn yn cadw golwg ar y datblygiadau hyn i weld sut y gellid eu defnyddio i gynnal iechyd gwenyn. Caiff amrywiaeth o feysydd eu hystyried gan gynnwys dulliau adnabod plâu, clefydau a pheryglon eraill i iechyd gwenyn, technegau rheoli a hwsmona yn ogystal â dulliau monitro iechyd gwenyn mêl yn y cwch. Caiff y gorwel ei sganio am beryglon newydd, gan gynnwys y rheini sy'n effeithio ar bryfed peillio eraill. Lle bo angen, cynhelir asesiadau risg manwl i ystyried effeithiau tebygol ac i ddyfeisio mesurau lliniaru gan gynnwys cynlluniau wrth gefn.

### **4. Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar iechyd gwenyn mêl ac anghenion pryfed peillio eraill.**

Ceir o fewn y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn gyfoeth o wybodaeth a llawer o flynyddoedd y brofiad. Gellir manteisio arnynt i ddatrys problemau, addasu i sefyllfaoedd newydd a datblygu negeseuon clir ac ystyrlon gan ddefnyddio dulliau

sydd bellach wedi ennill eu plwyf. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn blatfform dylanwadol sy'n cynnig amrywiaeth eang o sianeli cyfathrebu eraill y gall aelodau gwahanol y fforwm eu defnyddio i gyflwyno negeseuon cytûn. Mae cyfnewid gwybodaeth hefyd yn ffordd bwysig o ddod â phobl ynghyd i drafod eu gwaith, i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i sicrhau gwelliannau.

Mae yna lawer iawn o ddiddordeb mewn gwenyn mêl ac mae'r cyhoedd wedi casglu gwybodaeth a chyfrannu at ein hymateb i gacynen Asia. Bydd yr ymdrechion i ennyn diddordeb y cyhoedd yn iechyd gwenyn ac anghenion pryfed peillio yn gyffredinol, yn parhau.

## **Pennod 3 – Ffyrdd o weithio**

Menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Defra yw Cynllun Gwenyn Iach 2030, ond mae cydweithio effeithiol rhwng pedair gwlad y DU yn hanfodol, ac nid y rheswm lleiaf am hynny yw'r angen i gynnal bioddiogelwch y DU gyfan. Mae'n bwysig nodi felly y parheir i gyfathrebu'n rheolaidd â swyddogion iechyd gwenyn yr Alban a Gogledd Iwerddon gydol cyfnod Cynllun Gwenyn Iach 2030, er enghraifft trwy gyfarfod chwarterol y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn.

### **Bioddiogelwch**

I gadw peryglon plâu a chlefydau mor fach â phosibl, bydd Llywodraeth Cymru a Defra'n parhau i gynnal a datblygu polisi plâu a chlefydau; bydd yr NBU yn cynnal y rhaglen iechyd gwenyn sy'n cynnwys cadw golwg, rheoli clefydau a hyfforddiant i wwenynwyr; bydd rhanddeiliaid gwenyna a ffermio gwenyn yn helpu'r llywodraeth i lunio polisi ac annog gwenynwyr a ffermwyr i gynnal safonau hwsmona da trwy hyfforddiant a mentora; bydd Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn yn annog ei haelodau i gymryd rhan yn DASH.

### **Sgiliau a chynhyrchiant**

Er mwyn gwella'u sgiliau a'u gallu i gynhyrchu, caiff gwenynwyr a ffermwyr gwenyn eu hannog i gael eu hyfforddi ac i rannu profiadau yn eu hardaloedd (mentora, grwpiau a chymdeithasau lleol); bydd ffermwyr gwenyn yn cynnal rhaglen datblygu proffesiynol ar gyfer ffermwyr gwenyn, a fydd yn cynnwys helpu'r rheini sydd am fynd yn ffermwyr gwenyn i ddechrau yn y diwydiant; bydd yr NBU yn darparu hyfforddiant ar adnabod plâu a chlefydau.

### **Gwyddoniaeth a thystiolaeth**

Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno i ddefnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn i gynnal iechyd gwenyn, a bydd yr holl rhanddeiliaid yn defnyddio'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn i rannu blaenoriaethau a chanfyddiadau ymchwil.

## **Cyfnewid Gwybodaeth**

Bydd yr holl bartneriaid yn cyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i gynnal iechyd gwenyn gan gynnwys arferion da, canfyddiadau ymchwil a'u profiadau o wenynd/ffermio gwenyn. Bydd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a Chymdeithas Gwenynwyr Prydain yn annog a helpu pob gwenynwr i ymuno â grwpiau a chymdeithasau lleol, a lle medrir, i gael hyd i fentor.

Caiff gwaith y partneriaid mewn cysylltiad ag anghenion pryfed peillio eraill ei drefnu gan Dasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio (Cymru) a'r Grŵp Llywio Cynghori ar Bryfed Peillio (Lloegr).

Bydd partneriaid yn cyfrannu at waith y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn trwy gynnig eitemau ar gyfer yr agenda a mynd i gyfarfodydd a chyfrannu atynt ac at ddogfennau a ddsberthir trwy e-bost.

## **Pennod 4 – Rhoi'r Cynllun ar waith**

### **Sut i roi Cynllun Gwenyn Iach 2030 ar waith**

Gan ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'r Cynllun Gwenyn Iach cyntaf a'r ffyrdd o gydweithio sydd wedi'u datblygu, mae'r cynllun newydd yn disgrifio'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnyn nhw am y 10 mlynedd nesaf. Rydym eisoes wedi disgrifio'r pedwar prif ganlyniad a ffyrdd o weithio. I sicrhau'r canlyniadau hyn, caiff cynllun gweithredu a'i gamau eu datblygu. Bydd yn nodi pryd y cymerir y camau gofynnol a sut y caiff y gwaith ei fonitro.

Caiff y cynllun gweithredu ei ddatblygu gan y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn o dan arweiniad rheolwr y Cynllun Gwenyn Iach. Mae rhai camau eisoes wedi'u nodi wrth adolygu'r cynllun cyntaf. Mae meysydd gwaith newydd a chamau eraill wedi'u crynhoi yn sgil trafodaethau cynharach yn y Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn a chânt hwythau eu cynnwys yn y cynllun gweithredu. Bydd amserlen yn cael ei llunio ar gyfer cymryd y camau hyn a nodir pwy fydd yn gyfrifol amdanynt. Bydd y cynllun newydd yn para 10 mlynedd ond caiff y cynllun gweithredu ei ddiweddarau bob rhyw 3 blynedd er mwyn cael cynnal adolygiad bras o:

- (i) y camau fydd wedi'u cwblhau;
- (ii) y camau sy'n cael eu cymryd;
- (iii) a oes angen camau newydd.

Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys hefyd fesurau llwyddiant ac fe'u defnyddir i fonitro hynt Cynllun Gwenyn Iach 2030 a'i gamau.